**Ydych chi'n gwybod pa mor dda yw darpariaeth gofal y galon eich ysbyty?**

Gallwch wirio pa mor dda yw darpariaeth gofal y galon eich ysbyty i'w gleifion drwy edrych ar ganlyniadau'r Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol*.

Mae'r rhain ar gael i bawb ar wefan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil i Ganlyniadau Cardiofasgwlaidd (NICOR) (www.nicor.org.uk).

Mae'r Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol yn cynhyrchu sawl adroddiad bob blwyddyn.

Mae'r prif adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol. Mae adroddiad Cleifion, Gofalwyr a'r Cyhoedd, a ysgrifennwyd gan gleifion a rhai sy'n rhoi gofal, yn rhoi safbwynt claf, ac mae sawl adroddiad ar wahanol gyflyrau ar y galon a'u triniaeth:

- Clefyd cynhenid y galon (gan gynnwys llawdriniaeth ar y galon a thriniaethau eraill ar gyfer plant)
- Gofal trawiad ar y galon
- Stentiau ac angioplasti
- Llawfeddygaeth ar y galon mewn oedolion
- Methiant y galon
- Annormaleddau rhythm y galon
- Sawl triniaeth y galon nad yw'n llawdriniaethol:
    - Triniaethau falf aortig
    - Triniaethau falf feitrol a theirlen
    - Triniaethau atodyn atrïaidd chwith
    - Triniaethau i gau twll bach yn y galon
- Adsefydlu Cardiaidd

Mae'r adroddiadau hyn yn deillio o ddata a anfonwyd at NICOR gan ysbytai. Anfonir y data heb gydsyniad y claf, fel y caniateir gan Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ôl argymhelliad gan yr Awdurdod Ymchwil Iechyd. At ddibenion archwilio, mae NICOR wedi'i eithrio o'r ddeddfwriaeth Optio Allan o Ddata Cenedlaethol, er nad yw'r eithriad hwn yn berthnasol at ddibenion ymchwil. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am hyn ar wefan NICOR, yn enwedig ar y dudalen Cleifion a Gofalwyr (https://www.nicor.org.uk/patient-and-carers). Mae yna hefyd Daflen Wybodaeth i Gleifion a Datganiad Preifatrwydd (manylion cyfeiriadau gwe isod).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol am unrhyw un o'r adroddiadau uchod, gallwch gysylltu â'r rhaglen yn: nicor.auditenquiries@nhs.net

*wedi'i gefnogi gan GIG Lloegr a GIG Cymru

Taflen Wybodaeth Ychwanegol i Gleifion ar gael yn:
https://www.nicor.org.uk/devuret/2025/04/20250425-NICOR-Patient-and-Public-Information-Leaflet-v4-Approved.pdf

Datganiad Preifatrwydd NICOR ar gael yn:
https://www.nicor.org.uk/devuret/2025/08/20250716-NICOR-Privacy-Notice-v6-approved.pdf

## Helpwch i lunio dyfodol gofal y galon

Mae'r Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol eisiau clywed gan gleifion a rhai sy'n rhoi gofal am eu profiad o fyw gyda'r cyflyrau ar y galon hyn.

Mae eich mewnwelediad a'ch barn yn werthfawr a byddant yn helpu i lunio dyluniad, allbynnau ac effaith yr adroddiadau (a fydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar sut y cynigir gofal a thriniaethau i gleifion y galon yn y dyfodol).

Dyma sut y gallwch chi gymryd rhan:

- **Rhannwch eich barn:** Cymerwch ran mewn arolygon a rhowch wybod i ni beth yw eich barn. Mae eich barn yn bwysig a gall arwain at newidiadau go iawn.
- **Ymunwch â'r Panel Cleifion Rhithwir (VPP):** Rhannwch eich adborth a'ch barn ar-lein. Mae'n hawdd ac yn hyblyg, a bydd eich mewnbwn yn helpu i wella gofal y galon i bawb.
- **Ymunwch â'r Grŵp Cynrychiolwyr Cymunedol (CRG):** Byddwch yn arweinydd mewn gweithgareddau cleifion a'r cyhoedd. Rhannwch eich profiadau a'ch syniadau i helpu i lunio gofal y galon. Mae gan Gadeirydd y grŵp hwn brofiad personol o glefyd y galon, felly bydd eich llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi.

Cysylltwch â ni yn nicor.auditenquiries@nhs.net i gymryd rhan.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o bobl sy'n byw gyda chlefyd y galon.

Diolch.